

» Darganfod mwy am gyfyngiadau lleol y coronafeirws

Dilynwch y cyngor ar gyfer y [coronafeirws \(COVID-19\)](#)

[Cuddio](#) X

[Hafan](#) > [Coronafeirws \(COVID-19\)](#) > [Addysg a gofal plant: coronafeirws](#) >

[Addysg bellach ac uwch: coronafeirws](#) > [Rheolau coronafeirws a myfyrwyr: canllawiau](#) >

Rheolau'r coronafeirws a myfyrwyr: canllawiau [HTML]

CANLLAWIAU

Rheolau'r coronafeirws a myfyrwyr: canllawiau

Canllawiau i fyfyrwyr ar reolau coronafeirws.

Cyhoeddwyd gyntaf: 28 Medi 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 28 Medi 2020

Cynnwys

Beth yw “aelwyd” y myfyriwr?

Pwy sy'n ffurfio rhan o “aelwyd” y myfyriwr?

Pam mae'r cyfyngiadau mor llym?

Mae angen i fyfyrwyr yng Nghymru fod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau ar gymdeithasu sy'n cael eu gorfodi gan y gyfraith mewn ymateb i'r coronafeirws. Yn aml, mae'r rhain yn wahanol i'r gyfraith mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

Mae nifer o'r cyfyngiadau'n seiliedig ar y lle yr ydych chi'n byw ynddo ac â phwy yr ydych chi'n byw, hynny yw eich “aelwyd”.

I grynhoi:

- ni chaniateir i bobl yng Nghymru gyfarfod i gymdeithasu dan do ag unrhyw un nad yw'n rhan o'u haelwyd
- yr unig eithriad i'r rheol honno yw pan fydd un aelwyd yn cytuno i ymuno ag aelwyd arall i ffurfio aelwyd estynedig neu “swigen”
- yng Nghymru gall hyd at bedair aelwyd ymuno â'i gilydd i ffurfio aelwyd estynedig, a gall hyd at chwe unigolyn o'r aelwyd honno gyfarfod dan do ar unrhyw un adeg
- fodd bynnag, ni chaniateir i aelwydydd estynedig gyfarfod mewn man sydd wedi'i ddynodi'n ardal diogelu iechyd leol – h.y. pan fydd cyfyngiadau lleol yn berthnasol
- ond gall hyd at 30 o bobl gyfarfod yn yr awyr agored, ond dylid dilyn y cyngor ar gadw pellter cymdeithasol.

Gofynion cyfreithiol yw'r rhain a gall myfyrwyr gael dirwy cosb benodedig am beidio â chydymffurfio â'r gofynion hyn, neu gallent gael eu herlyn drwy'r llysoedd.

Beth yw “aelwyd” y myfyriwr?

Gallai fod yn anodd i fyfyrwyr weithiau ddeall beth yw eu haelwyd, gan nad yw hi bob amser yn amlwg o ran gyda phwy y mae myfyrwyr yn byw.

Mae nifer o fyfyrwyr yn gadael eu cartrefi i fynd i'r brifysgol, ac wedyn maent yn mynd yn rhan o aelwyd wahanol. Fodd bynnag, nid yw hynny o reidrwydd yn meddwl nad ydynt bellach yn rhan o'r cartref y maent wedi'i adael. Fel rheol, mae nifer o fyfyrwyr yn treulio amser i ffwrdd yn y brifysgol a gartref – ac ystyrir bod ganddynt ddwy “aelwyd” at ddibenion cyfyngiadau'r coronafeirws.

Ond, dylai myfyrwyr fod yn ymwybodol bod mwy o berygl o ran lledaenu'r coronafeirws pan fyddant yn symud rhwng y ddwy aelwyd. Felly, cynghorir myfyrwyr i symud rhwng eu haelwydydd yn ystod y tymor' a'r 'tu allan i'r tymor' dim ond pan fydd angen iddynt wneud hynny – er enghraifft oherwydd gwaith neu oherwydd pryderon am eu llesiant. Dylai myfyrwyr hefyd fod yn ymwybodol y gallai cyfyngiadau lleol olygu y byddai angen rheswm da arnynt i deithio.

Ar ben hynny, i leihau'r perygl fe ddylai myfyrwyr wneud y canlynol:

- lleihau nifer y cysylltiadau y maent yn eu cael ag eraill os ydynt yn bwriadu symud rhwng eu dwy aelwyd
- osgoi ymgynnull yn answyddogol, mewn unrhyw fannau prysur a chiwiau hir
- gwisgo gorchudd wyneb mewn mannau cyhoeddus dan do, gan gynnwys mannau cyhoeddus mewn llety a rennir
- cadw pellter cymdeithasol hyd yn oed yn eu haelwydydd eu hunain am 14 diwrnod, naill ai cyn iddynt ddychwelyd adref neu ar ôl iddynt ddychwelyd adref
- peidio â rhannu tywelion, brwsys dannedd neu eitemau personol ag unrhyw un yn y naill aelwyd na'r llall.

Bydd y mesurau hyn yn helpu i leihau'r perygl i'r teulu, i ffrindiau ac i'r gymuned ehangach. Dylai myfyrwyr hefyd gofio bod rhai aelodau o'u haelwydydd, gartref neu yn ystod y tymor, mewn mwy o berygl o salwch COVID-19, ac mae ein hymddygiad ni yn effeithio ar fywydau eraill.

Rhaid i bawb feddwl yn ofalus am le y maent yn mynd ac â phwy y maent yn cyfarfod – oherwydd po fwyaf nifer y lleoedd yr ydym yn mynd iddynt, y mwyaf yw nifer y bobl yr ydym yn cyfarfod â nhw, sy'n golygu mwy o gyfleoedd i ddal y coronafeirws.

Pwy sy'n ffurfio rhan o “aelwyd” y myfyriwr?

Bydd natur “aelwyd” myfyriwr tra bydd yn y brifysgol yn dibynnu ar y math o lety y mae'n byw ynddo.

Mewn nifer o achosion, bydd natur y llety'n golygu bod aelwyd y myfyriwr yn amlwg. I fyfyrwyr sy'n byw mewn llety ar ffurf “fflat” a ddarperir gan brifysgolion, lle bydd gan nifer bach o fyfyrwyr ystafelloedd gwely a chyfleusterau a rennir, fel ystafell ymolchi neu gegin mewn uned hunangynhwysol, “aelwyd” y myfyriwr yw'r fflat hwnnw. Yn yr un modd, i fyfyrwyr sy'n byw mewn tŷ a rennir, y rheini sy'n byw yn y tŷ sy'n ffurfio'r aelwyd.

Ni chaniateir i fyfyrwyr gymdeithasu dan do gydag unrhyw un nad yw'n rhan o'u haelwyd. Fodd bynnag, gall aelwyd gytuno ar ffurfio aelwyd estynedig â hyd at dair aelwyd arall. Ond gallai hynny fod yn anodd oherwydd rhaid i bob un o'r myfyrwyr yn yr aelwydydd dan sylw gytuno ar hynny. Dylai myfyrwyr gofio hefyd y gallai cyfyngiadau lleol atal aelwydydd estynedig rhag cyfarfod.

Fodd bynnag, i fyfyrwyr sy'n byw mewn neuaddau preswyl traddodiadol, mae'r sefyllfa'n llai amlwg. O dan yr amgylchiadau hynny, nid ydym yn ystyried bod y 200 neu 300 o fyfyrwyr sy'n byw yn yr adeilad yn byw “gyda'i gilydd” o ran ystyr arferol y geiriau hynny. Yn sgil hynny, nid ydym yn ystyried mai honno yw “aelwyd” y myfyriwr at ddibenion cyfyngiadau'r coronafeirws. Ar sail hynny, mae pob myfyriwr sy'n byw mewn ystafell sengl mewn neuadd breswyl draddodiadol yn “aelwyd” unigol at ddibenion y rheolau.

Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad yw sefyllfa o'r fath er budd llesiant y myfyrwyr hynny. Ac mae hefyd yn un anymarferol. O ganlyniad, mae'r gyfraith wedi'i newid i ddarparu bod gan fyfyrwyr sy'n byw mewn neuaddau preswyl esgus rhesymol i gymdeithasu â'r rheini yn y neuadd y maent yn rhannu cyfleusterau â nhw, fel cegin neu ystafell ymolchi. Caiff cyfleusterau a rennir eu neilltuo i grwpiau 'cyswllt' penodol, er mwyn creu, i bob pwrpas, yr un math o “aelwyd” sy'n bodoli mewn llety sydd ar ffurf 'fflatiau'. Er enghraifft, ar gyfer cegin a rennir mewn neuadd breswyl, fe ddylai fod yn amlwg bod cegin “A” wedi'i neilltuo i fyfyrwyr ar lawr 1, ystafelloedd 1 i 12, cegin “B” ar gyfer myfyrwyr ar lawr 2, ystafelloedd 13 i 24 ac ati. Dylid hefyd ei gwneud yn glir fod y cyfleusterau hynny at ddefnydd y rheini y maent wedi'u neilltuo iddynt yn unig, ac na all unrhyw fyfyrwr arall ddefnyddio'r cyfleusterau hynny. Dylai arwyddion clir gael eu harddangos i sicrhau bod myfyrwyr yn ymwybodol o hynny.

Mae'r esgus rhesymol hwnnw'n berthnasol yn y neuadd breswyl a'r tu allan iddi, ond ni all fwy na chwe myfyriwr o bob un o'r grwpiau hynny gyfarfod (dan do) ar unrhyw un adeg. Yn amlwg, mae angen i fyfyrwyr ddeall pwy sydd yn eu grŵp cyswllt a deall na ddylent gymdeithasu dan do ag unrhyw un y tu allan i'r grŵp cyswllt hwnnw (oni bai eu bod wedi ffurfio aelwyd estynedig).

Pam mae'r cyfyngiadau mor llym?

Gwyddom fod y coronafeirws yn lledaenu'n hawdd pan fydd pobl yn gymdeithasu dan do. Gwyddom hefyd fod pobl yn tueddu i beidio â dilyn arferion cadw pellter cymdeithasol pan fyddant yn gymdeithasu. Felly, rhaid inni leihau achosion o ryngweithio'n agos â'n gilydd drwy leihau maint y cymdeithasu rhwng grwpiau o bobl.

Po fwyaf yw nifer y bobl sy'n rhyngweithio â'i gilydd, y mwyaf yw nifer y bobl a fydd yn lledaenu'r feirws. Ac os bydd myfyriwr yn profi'n positif am COVID-19, rhaid i'r myfyriwr hwnnw hunanynysu, ynghyd â phawb arall y mae wedi dod i gysylltiad agos â nhw. Gallai hynny olygu y bydd gofyn i niferoedd mawr o fyfyrwyr hunanynysu – a gallai hynny gael effaith ar eu haddysg.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad bywyd myfyriwr fel yr arferai fod yw hwn, ond yn anffodus nid ydym yn byw mewn cyfnod arferol ar hyn o bryd.

Helpwch ni drwy gadw at y rheolau. Helpwch ni i Ddiogelu Cymru.

| | |
|--------------------------|------------------------------|
| Cyhoeddwyd gyntaf | Diweddarwyd ddiwethaf |
| 28 Medi 2020 | 28 Medi 2020 |

[Adrodd am unrhyw beth sy'n bod gyda'r dudalen hon](#)

[Rhannu'r dudalen hon](#)

[Nôl i dop y dudalen](#)